



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

6 Rhagfyr 2019

9:00 am to 11:30 yb

Optic, Llanelwy

Yn bresennol:	Teresa Owen (Cadeirydd), Alwyn Jones, Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Bethan E Jones, Clare Budden, Dave Worrall, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Helen Corcoran, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, John Gladston, Kevin Roberts, Llinos Medi Huws (yn bresennol tan 11:00 am), Lynda Colwell, Mark Wilkinson (MWil), Neil Ayling, Peter Williams, Rob Smith, Shan Lloyd Williams
Ymddiheuriadau:	Charlotte Walton, Chris Stockport, y Cyng. Bobby Feeley, y Cyng. Christine Jones, y Cyng. Joan Lowe (JLo), y Cyng. Louise Emery, y Cyng. Dafydd Meurig, Judith Greenhalgh, Mary Wimbury (MWim), Nicola Stubbins, Wendy Jones, Lesley Singleton, Catherine Elaine Jones

Hefyd yn bresennol: Add names here

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod olaf yn 2019, gan roi gwybod y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob yn ail mis yn 2020.

Diolchodd y cadeirydd i DW am ymgymryd â'r rôl o gadeirio yng nghyfarfod mis Tachwedd.

Noddodd y cadeirydd, gan fod nifer o ymddiheuriadau wedi dod i law ar gyfer y cyfarfod heddiw, nad oedd y bwrdd yn gworwm ac y bydd unrhyw benderfyniadau, lle bo angen, yn cael eu gwneud dros e-bost.

2 Cofnodion a champau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd fel cofnod cywir a nodwyd bod pob cam gweithredu wedi'u cwblhau.

Nododd y Cyng. LIMH y dylid newid 'nodiadau' i 'cofnodion' yn y cofnodion Cymraeg.

Cadarnhaodd DW y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda JG i drafod Achub Mynydd, sy'n eitem ar y rhaglen i'r dyfodol.

Camau Gweithredu

- RW i ddiweddarau.

3 Strategaeth Hirdymor Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru (YGAC)

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan Jason Killens, James Houston ac Estelle Hitchon ar Fframwaith Strategol Hirdymor Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwylans Cymru.

Rhoddodd JK wybod fod YGAC yn cysylltu â thros filiwn o gleifion bob blwyddyn drwy'r gwahanol wasanaethau a ddarperir; gwasanaeth 999 Cymru Gyfan, gwasanaeth cludiant mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, rhyddhau cleifion ar gyfer gweithgareddau a drefnwyd, gwasanaeth 111 a Galw Iechyd Cymru.

Yn hanesyddol, roedd YGAC yn bodoli fel darparwr cludiant. Fodd bynnag, mae'r math o wasanaeth a darpariaeth gofal bellach yn newid i ganolbwyntio ar anghenion cleifion unigol a system o ddarparu gofal drwy wasanaethau, gan osgoi defnyddio'r Adran Argyfwng oni bai bod hynny'n angenrheidiol. Er mwyn datblygu fframwaith strategol hirdymor YGAC, fe wnaeth YGAC ymgymryd â chyfnod dwys o ymgysylltu gyda thros 450 o gleifion, staff a budd-ddeiliaid allanol.

Yn dilyn ymgynghoriad, sefydlwyd grŵp llywio mewnol. Cymeradwyodd y grŵp y fframwaith strategol ym mis Mai 2019, ac mae'n parhau i ymgysylltu â chynnydd y strategaeth.

Mae'r strategaeth yn cynnwys 3 nod:

1. Helpu cleifion a staff i aros yn iach
2. Helpu cleifion i gael mynediad haws at ein gwasanaethau ar yr amser cywir
3. Darparu'r gofal cywir yn y lleoliad cywir, lle bynnag a phryd bynnag y bo angen.

Er mwyn galluogi'r newid o fewn y gwasanaeth, bydd YGAC yn sicrhau:

- Fod cynllun a seilwaith y sefydliad yn flaenoriaeth i waith arloesi a thechnoleg
- Partneriaeth ac ymgysylltu system gyfan
- Bod staff yn gwneud eu gorau glas
- Bod y gwasanaeth yn darparu'r gofal, canlyniadau a'r profiad gorau posibl i'n cleifion

Mae YGAC yn cynnig addysgu'r cyhoedd i wneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â gwasanaethau sy'n hawdd cael mynediad atynt. Bydd y gwasanaeth argyfwng yn newid o Galw Iechyd Cymru i 111. Bydd y gwasanaeth yn integreiddio technoleg rhithwir newydd i wasanaethau i ddarparu'r ymateb cywir ar yr amser cywir.

Mae YGAC hefyd yn cynnig ymgysylltu a gweithio ymhellach gyda phartneriaid eraill i ddefnyddio gofal sylfaenol, yn y cartref neu yn y gymuned. Er mwyn galluogi hyn, caiff swyddi Uwch Ymarferwyr Parafeddygol eu datblygu i wella sgiliau clinigol y gweithlu a thimau amlddisgyblaethol ar y cyd h.y. byddai parafeddyg yn ogystal â ffisiotherapydd yn bresennol i ymdrin â chlaf sydd wedi cael codwm.

Mae'r manteision yn cynnwys:

- Gofal clinigol a phrofiad gwell i gleifion.
- Bydd pobl yn gwneud penderfyniadau gwybodus am eu hanghenion gofal iechyd.
- Iechyd, lles a bodlonrwydd swydd gwell i weithwyr.
- Gweithlu hyblyg a medrus ar gyfer y dyfodol - rhagor o gyfleoedd gyrfaol ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Rhaglen gyfan yn cefnogi rhaglen gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu.

Nododd RS bod strategaeth hirdymor YGAC yn cefnogi ac yn cysylltu'n agos â'r Rhaglen Trawsnewid Cymunedol/Gofal yn Agosach at y Cartref ac y byddai'n rhaid cael trafodaeth ynghylch sut mae hyn yn cyd-fynd a Cymru Iachach a phwy fydd yn gyfrifol am ddatblygu.

Diolchodd KR i YGAC am y cyflwyniad llawn gwybodaeth, a heriodd YGAC i fod yn fwy hyblyg a chydweithredol gyda sefydliadau h.y Heddlu Gogledd Cymru (HDC), Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), Gofal a Thrwsio a lluo o sefydliadau eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth ar draws Cymru gyfan i gleifion ar yr amser cywir.

Mae'r YGAC eisoes yn gweithio'n agos gyda BIPBC ac mae gwelliannau wedi'u cydnabod yn amser ymateb yr Adran Argyfwng. Mae gwasanaeth wedi'i deilwra mewn perthynas â chodysau wedi dechrau yn Ne Cymru, a bydd y gwasanaeth yn cael ei roi ar waith ar draws Cymru. Derbyniodd JK yr her, a chytunodd i gael trafodaeth bellach â'r GTAGC S yn y dyfodol agos.

Holodd DW ynghylch materion yn ymwneud â phobl sy'n profi codysau yn eu cartref, a defnydd y cyhoedd o 'Manga' – clustog wedi'i lenwi ag aer a ddefnyddir i godi.

Nododd EH:

- Fod LIC wedi ariannu ac wedi darparu 'manga' ynghyd a hyfforddiant i ddefnyddio'r offer ym mhob cartref gofal ar draws Cymru.
- Bydd 'gwasanaeth codymau' a ariennir gan LIC, a ddatblygwyd y gaeaf diwethaf yn Ne Cymru yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol i ymateb i gleifion heb eu hanafu sy'n ffonio 999
- Mae trafodaeth weithredol yn mynd rhagddo ynghylch sut y gall partneriaid gydweithio gyda gwasanaethau eraill ar draws y sector cyhoeddus i ymateb i gydymau lle nad yw'r unigolyn wedi anafu.

Hysbysodd NA am nifer o achosion yng Ngogledd Cymru o gleifion yn aros cyfnodau hir am Ambiwlans, gan arwain at eu salwch yn symud i gyflwr difrifol.

Roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn cydnabod bod angen mynd i'r afael ag amseroedd aros. Fodd bynnag, mae cynnydd da wedi'i wneud yn ddiweddar, gyda BIPBC yn arwain ar draws Cymru. Mae'r amseroedd ymateb yn parhau i fod yn hirach na'r targed, ond mae YGAC yn gweithio gyda chomisiynwyr a PBC ar y gofynion dros y 5 mlynedd nesaf, caiff yr adnoddau gofynnol a buddsoddiad sylweddol yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd eu darparu gan YGAC a gweddill y system.

Nododd ME fod perfformiad YGAC a'r system gyfan yn is mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol ac argymhellwyd y dylid cynnal trafodaethau o fewn y systemau integredig yng Ngwynedd a Sir Fôn.

Yn ogystal â hynny, cododd ME y broblem o ran recriwtio parafeddygon, nododd mai Prifysgol Abertawe oedd yr unig Brifysgol yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau parafeddygol a holodd bwriad YGAC i ystyried cyrsiau o fewn Gogledd Cymru ym Mhrifysgolion Bangor a Glyndŵr, fyddai hefyd yn hyrwyddo recriwtio siaradwyr Cymraeg. Nododd ME hefyd nad oedd 'Mwy Na Geiriau' wedi'i nodi o fewn Strategaeth Hirdymor YGAC.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredol bod YGAC yn recriwtio parafeddygon yn bennaf o Brifysgol Abertawe. Fodd bynnag, bydd gwaith yn dechrau ym mis Ionawr 2020 i gryfhau cysylltiadau â holl Brifysgolion Cymru, a bydd Prifysgolion Gogledd Cymru yn cael eu harchwilio ar gyfer cyrsiau Parafeddyg Uwch

Nododd EH fod Gwella Addysg Iechyd Cymru (HEIW) yn comisiynu aelodau o weithlu'r dyfodol, a dylai'r ffofws fod ar sut i annog mwy o bobl ifanc lleol i ystyried YGAC fel gyrfa, nid fel swydd yn unig. Bydd angen gwaith pellach a chydweithredu ar safonau'r Gymraeg

Awgrymodd ME i gynrychiolydd o YGAC ymuno â'r Fforwm MTJW.

Diolchodd TO i YGAC am eu cyflwyniad ac i aelodau'r BPRh am y drafodaeth ddefnyddiol a gafwyd.

4 Hyfforddiant Iaith Gymraeg ar-lein

Bu i ME, cadeirydd y fforwm 'Mwy Na Geiriau' (MTJW), atgoffa pawb o ymrwymiad Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r Polisi Iaith Gymraeg.

Mae cais wedi'i dderbyn gan y fforwm MTJW i aelodau o'r BPRh gwblhau'r hyfforddiant 10 awr 'Gweithio'n Gymraeg' er mwyn cyrraedd lefel 1. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys:

- Sgyrsiau wyneb yn wyneb gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r rheiny yr ydych yn gofalu amdanynt
- Dysgu teitlau swyddi yn y sector gofal cymdeithasol yn Gymraeg
- Dysgu enwau rhai grwpiau defnyddiwr gwasanaeth yn Gymraeg
- Trafod rhai amodau, yn ymwneud yn bennaf â gofal cymdeithasol
- Datblygu sgiliau sgwrsio ymhellach

Roedd y cadeirydd yn ystyried fod hon yn her deg a gofynnodd am sylwadau o amgylch y bwrdd.

Gofynnodd KR am y gofyniad i gyrraedd lefel 1 o'i gymharu â lefel 1 o fewn y GTAGC HGC, sydd hefyd wedi ymrwymo i'r Polisi Iaith Gymraeg.

Roedd ME yn tybio mai'r gallu i gyflwyno eich hunan a chydweithwyr oedd yr ateb i gwestiwn KR, ond byddai diffiniad yn cael ei rannu gydag aelodau'r BPRh.

Roedd ME yn falch o glywed fod y Gymraeg eisoes yn cael ei chynnig yn y gweithle ac awgrymodd i aelodau'r BPRh gyflwyno eu hunain yn Gymraeg o amgylch y bwrdd yn y dyfodol.

Rhoddodd JLe wybod nad oedd gwasanaethau cyfieithu ar gael yn y mwyafrif o'r cyfarfodydd LIC cenedlaethol y mae hi'n eu mynychu fel cynrychiolydd gofalwyr.

Cytunodd aelodau'r BPRh y dylai aelodau nad ydynt yn siarad Cymraeg ymgymryd â'r hyfforddiant dysgu Cymraeg ar-lein 10 awr er mwyn cyrraedd lefel un, gan ystyried hyblygrwydd gyda'r amserlen, oherwydd blaenoriaethau gwaith.

Dyma'r ddolen i'r hyfforddiant:

<https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/cyrsiau-cymraeg-gwaith/croeso-sector-gofal/>

Camau Gweithredu

- ME i ddarparu diffiniad o Gweithio'n Gymraeg L1.

- Aelodau nad ydynt yn siarad Cymraeg ymgymryd â'r hyfforddiant dysgu Cymraeg ar-lein 10 awr.

5 Cymru Iachach – Diweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid Gofal yn Agosach at y Cartref/Gwasanaethau Cymunedol

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan AJ ar y gweithgareddau hyd yma mewn perthynas â Rhaglen Trawsnewid Tîm y Gwasanaethau Cymunedol.

Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a BIPBC wedi cydweithio'n agos am sawl blwyddyn bellach i ddatblygu gwasanaethau i'r gymuned, sydd wedi cael ei ariannu yn hanesyddol gan y Gronfa Gofal Integredig (CGI). Mae cyllid Rhaglen Drawsnewid y Gwasanaethau cymunedol wedi caniatáu i'r gwaith hwn gael ei ddatblygu ymhellach, gydag amcanion tebyg i YGAC; gan anelu at drosglwyddo llai o bobl i'r ysbyty, darparu cymorth a chefnogaeth gynnar i bobl yn eu cartrefi eu hunain.

Bydd y gwaith yn cael ei gefnogi drwy glystyrau Meddygon Teulu a threfniadau gofal cymdeithasol, Timau Adnoddau Cymunedol, darparu cymorth ar 'beth sy'n bwysig' i unigolion. Bydd yr ardaloedd hyn, unwaith y byddant wedi'u datblygu'n llawn, yn gweithio'n lleol o fewn egwyddorion cynllunio rhanbarthol cytunedig.

Roedd y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:

- Cefnogi newidiadau mewn ardaloedd lleol, gweithio gydag ymarferwyr, ysbytai a phartneriaid, h.y. y camau cychwynnol mewn perthynas â gwaith mapio yn erbyn cefnogi pobl.
- Mae timau prosiect is-ranbarthol yn weithredol yn yr ardaloedd Canolog, Gorllewinol a Dwyreiniol gyda gwaith penodol yn parhau yn yr ardaloedd hynny.
- Cwblhawyd gwaith ar egwyddorion cynllunio ac ar y canlyniadau, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r data sylfaenol.
- Mynd i'r afael â'r broblem mewn perthynas â gwasanaeth cynaliadwy i'r dyfodol; y patrwm presennol a'r gofyniad o ran gwasanaethau, adnoddau a chefnogaeth ariannol i'r dyfodol.
- Bydd Timau Arweinyddiaeth Ardal Leol yn llywodraethu'n lleol ac yn cynnig rheolaeth strategol o adnoddau gan ystyried dulliau gwahanol ar draws y rhanbarth.
- Bydd Arloeswyr Ardal yn cynnwys ystyriaeth o wersi a ddysgwyd cyn ystyried rhoi unrhyw beth ar waith.
- Gweithio gydag IPC ar asesiadau a theorïau newid annibynnol ar draws Gogledd Cymru, gan edrych ar y dulliau gorau ar gyfer gweithredu newid.

- Cyhoeddi'r Rhaglen Drawsnewid yn ogystal â'r Rhaglen Gwasanaethau Cymunedol, gan sicrhau fod staff yn ymwybodol o'r newidiadau diwylliannol ac nad yw mynd i'r ysbyty yn opsiwn diofyn.
- Nodwyd hefyd bod LIC wedi rhoi gwybod i'r BPRh am eu penderfyniad i ymestyn cyfnod y rhaglen tan Mawrth 2021 ac mai'r dyddiad terfyn ar gyfer gweithgareddau yw 28 Chwefror 2021.

Gofynnodd PW sut mae'r rhaglen yn cyd-fynd â'r Rhaglenni Trawsnewid eraill sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â chanolfannau cymunedol a gofal sylfaenol.

Cadarnhaodd AJ fod Rheolwyr Prosiect Rhaglenni Drawsnewid yn cael eu cyflogi drwy'r Tîm Cydweithredu Rhanbarthol, gyda phob rhaglen yn ymwybodol o waith ei gilydd ac yn rhan annatod o'r un drafodaeth.

Cytunodd EH ei bod yn anodd i'r cyhoedd dderbyn newid, ac y byddai hi'n hapus i drafod sut i weithio ar y cyd i ddarparu'r neges leol y tu allan i'r BPRh.

Cynigodd HC i helpu â'r ffigurau er mwyn llenwi'r adran 'trosedd' yn y Fframwaith ar gyfer Asesu Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol.

Gofynnodd MW a oedd y Timau Arweinyddiaeth Ardal Leol yn newydd a sut roeddent yn berthnasol ac yn gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth, gwaith clwstwr ac yn osgoi dyblygiad.

Rhoddodd AJ wybod mai arloeswyr yw'r Timau Arweinyddiaeth Ardal Leol, sy'n arbrofi cysyniadau'n fanwl gan ddefnyddio gwersi a ddysgwyd a'u rhaeadru drwy'r rhanbarth er mwyn cefnogi datblygiad pellach. Nid yw'n fwriad i greu haen arall. Mae byrddau prosiect wedi'u sefydlu ar draws bob un o'r Arloeswyr i ystyried bob cyfle cyn gweithredu.

Cynghorodd BJE fod y Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol wedi cytuno i ymgysylltu gydag IPOPS fel menter ddymunol i gefnogi casglu canlyniadau a data perfformiad, a bod ymrwymiad gan wasanaethau aciwt PBC yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'r model.

Gofynnodd JLe am gadarnhad o ran a oedd sylwadau'r gofalwr o fewn yr adroddiad yn cyfeirio at ofalwyr nad ydynt yn derbyn tâl, ac a yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau trwy weithio gyda 'gofalwyr' neu gyda 'gwasanaethau sy'n darparu gofal'.

Cyfeiriodd JLe hefyd at yr adran 'Dull ar gyfer Cydgynhyrchu' gan roi gwybod mai'r camau a gymerir i gydnabod cydgynhyrchu yw'r rhain, nid y broses gydgynhyrchu ei hun, sef cydweithio fel partneriaeth hafal â phob budd-ddeiliad, gan gynnwys gofalwyr a sefydliadau yn natblygiad y cynllun.

Cytunodd FJ i gynnwys yr eitem hon i'w thrafod yng nghyfarfod nesaf Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru.

Cytunodd TO i gynnal sgwrs ar wahân â BJE ac AJ ynghylch y risgiau a'r asesiad o fewn yr adroddiad.

Camau Gweithredu

- Cydgyhyrchu ar agenda Grwp gofalwyr – FfJ
- TO/BJE/AJ i drafod risgiau ac asesiadau Rhaglen Trawsnewid Cymunedol

6 Swyddfa Archwilio Cymru – Cronfa Gofal Integredig – (CGI)

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan NA ynghylch adroddiad CGI Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer BPRHGC, sy'n nodi'r canfyddiadau allweddol a'r meysydd i'w hystyried. Mae'r adroddiad yn berthnasol yn hanesyddol i'r archwiliad a gynhaliwyd yn ystod 2018.

Mae'r adroddiad yn darparu enghreifftiau o arferion nodedig a nodwyd ar draws Cymru y gallai'r BPRh ddysgu oddi wrthynt h.y. datblygu dangosfwrdd perfformiad ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, cyfrifoldebau a amlinellwyd mewn Memorandwm o Ddealltwriaeth gan Gwent Fwyaf.

Cymerodd NA'r cyfle i ddiolch i gydweithwyr CGI, Byrddau Gwasanaethau Integredig Ardal (BGIA) a'r Grŵp Cydlynu CGI Rhanbarthol am eu trafodaethau rheolaidd i wneud y mwyaf o gyllid CGI, sydd hefyd wedi gweld cynnydd yn yr elfen o Werth Cymdeithasol.

Awgrymodd TO y dylid datblygu cynllun gweithredu sy'n nodi'r canfyddiadau allweddol a nodwyd a'r camau gweithredu a gymerwyd i ddatrys, fel bod aelodau'r BPRh yn ymwybodol o'r gwaith a gaiff ei wneud.

Cadarnhaodd BJE bod camau gweithredu'n cael eu cymryd drwy'r grŵp swyddogion CGI a'r BGIA lleol. Mae cynnydd wedi'i wneud trwy gydol y flwyddyn a bydd y gwaith a wnaed yn cael ei drafod yng nghyfarfod arweiniol nesaf y swyddogion CGI.

Mae canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a nodwyd o'r adroddiad yn cynnwys datblygu strategaethau gadael ar gyfer prosiectau a chyfleoedd CGI a ystyriwyd i ddysgu o arferion da mewn rhanbarthau eraill. Bydd yn rhaid cael trafodaethau aeddfed gan fod prosiectau yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar gyllid CGI gyda nifer o brosiectau bellach yn cael eu hystyried fel rhan o wasanaethau craidd yr awdurdod, ac yn hanfodol ar gyfer cynnal gwasanaethau dydd i ddydd gofal cymdeithasol.

Bydd angen trafodaeth bellach ar aelodaeth y BPRh. Mae'r archwiliad yn nodi'r trafferthion mewn perthynas â gwneud penderfyniadau, o ganlyniad i faint y bwrdd. Cytunodd TO, a bydd y drafodaeth yn cael ei chynnal unwaith y bydd y canllawiau a disgwyliadau wedi'u derbyn gan LIC.

Cytunodd NA i'r cynllun gweithredu gael ei greu a chytunwyd ar y risgiau mewn perthynas â'r strategaeth ymadael. Mae bob partner, fodd bynnag, wedi defnyddio CGI i ddatblygu a chefnogi gwasanaethau dan bwysau difrifol. Byddai dileu cyllid CGI yn broblem sylweddol i bob partner.

Mynegodd JLe bryderon mewn perthynas â chanlyniadau'r adran defnyddwyr gwasanaeth ac er gwaethaf yr esiamplau cadarnhaol, nid oes llawer o dystiolaeth fod y cyllid yn gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a gofynnodd sut oedd y canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu mesur.

Rhoddodd BJE wybod fod LIC wedi darparu fframwaith ar gyfer adrodd a chasglu allbynnau, fodd bynnag, nid oedd system ar waith ar gyfer casglu canlyniadau hirdymor, gan eithrio'r defnydd o astudiaethau achos.

Nododd DW fel gweithiwr Trydydd Sector sydd ynghlwm â phrosiectau CGI, mai'r neges glir a gafwyd yw nad yw nifer o sefydliadau Trydydd Sector yn hyderus am gynaliadwyedd y tu hwnt i gyllid CGI, a bod yr amser a dreulir yn gwneud cais am gyllid yn rhwystr i sawl sefydliad.

Rhoddodd BJE wybod fod LIC yn cynnig proses dendro ar gyfer gwerthusiad CGI cenedlaethol yn y dyfodol agos.

Cynghorodd TO y bydd cyfle yn y gweithdy hunanasesu BPRh LIC sydd wedi'i ail-drefnu ar gyfer 12.02.2020, i drafod CGI ar ôl mis Mawrth 2020.

Camau Gweithredu

- BJE/SG i greu cynllun o gamau gweithredu a gwblhawyd ar gyfer BPRh mis Mawrth.
- Trafod adroddiad CGI Swyddfa Archwilio Cymru yn fanwl yng nghyfarfod swyddogion CGI.
- Aelodaeth BPRh ar gyfer rhaglen RPG i'r dyfodol.

7 Adeiladu Cymru Iachach

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan TO ynghylch y cyllid ychwanegol (£1.3 miliwn) a roddwyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn arbennig ar gyfer gwaith trawsnewid Atal a Blynnyddoedd Cynnar ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Yn ddiweddar, mae LIC wedi mynnu gofynion ychwanegol i gysylltu'r gwaith â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae terfyn amser tynn ar gyfer cyflwyno cynlluniau i LIC erbyn 31.12.2019 a phwysau i wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cadarnhaodd TO fod gwaith yn datblygu, ac mae ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd wedi profi beth sy'n gwneud gwahaniaeth ac yn cynnig gwerth yn y system.

Nododd CB y pwysigrwydd o wneud y mwyaf o gyfleoedd i holl aelodau'r BPRh i gynnig argymhellion ariannol i sicrhau fod cyllid yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf dynamig posibl, a nodwyd y pwysigrwydd o gynnwys tai a thlodi tanwydd.

Awgrymodd EH y dylid sicrhau fod prosiectau ar gyfer cyllid i'r dyfodol yn 'barod i fynd,' a'u hariannu ar unwaith er mwyn gallu bodloni terfynau amser tynn ceisiadau cyllid LIC, boed hyn yn llithriant CGI neu gyllid arall, ac efallai y gellid cwblhau'r gwaith hwn yn y gwanwyn.

Cadarnhaodd TO bod yr awgrymiadau a dderbyniwyd hyd yma y tu hwnt i swm y cyllid a ddyrannwyd ac y byddant yn eu blaenoriaethu yn nhrefn y canlyniad ataliol mwyaf.

Camau Gweithredu

- Cyflwyno'r cynllun terfynol mewn cyfarfod BPRh yn y dyfodol

8 Strategaeth Tymor Canolig/Hirdymor y BPRh

Mae'r papur sydd wedi'i gynnwys ym mhecyn y cyfarfod ynghylch strategaeth tymor canolig/hirdymor y BPRh yn cynnwys gwaith o weithdy gweledigaeth hirdymor y BPRh a gynhaliwyd â Keith Moultrie ym mis Medi 2019. Wrth gasglu nodiadau o'r gweithdy, roedd yn anodd canfod cysyniadau penodol a diriaethol sy'n ychwanegol i'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo. O ganlyniad, mae'r ddogfen yn fwy o ddogfen ffocws a blaenoriaethau yn hytrach na strategaeth, caiff cais ei wneud am ragor o adborth gan aelodau'r BPRh ar gyfer sylwadau penodol y dylid eu hystyried, gan gymryd i ystyriaeth blaenoriaethau'r BPRh fel sydd wedi'i nodi yn y canllawiau statudol Cymru lachach ac CGI. Unwaith y bydd y sylwadau terfynol hyn wedi'u derbyn, caiff y dogfennau terfynol eu cyflwyno i Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, a gomisynnodd y gwaith hwn yn wreiddiol.

Roedd yr awgrymiadau a wnaed yn cynnwys:

- Cryfhau dylanwadau – rhoi gwybodaeth i LIC ynghylch rhwystrau e.e. cyllid dros dro
- Ardaloedd a rhanbarthau yn rhoi gwybod am rhwystrau sy'n arbennig i'w hardaloedd nhw
- LIC i ddefnyddio'r BPRh i weld beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio
- Awgrymodd JLe newid y geiriad 'cydgynhyrchu' o fewn y ddogfen gan ei fod yn awgrymu gosod cyfrifoldeb ar bobl i gymryd rhan yn hytrach na'u denu i mewn.
- Rhagor o bwyslais ar addysg – ail-ystyried hyn unwaith y bydd canllawiau LIC wedi'u rhannu

- Rhagor o bwyslais ar Dai
- Ymestyn y diwylliant

Camau Gweithredu

- Adborth ychwanegol i'w yrru mlaen at BJE erbyn 06.01.2020.

9 Cydbwyllgor Canolbarth Cymru (CCC) - Blaenoriaeth Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan ME ynghylch amcanion Cydbwyllgor Canolbarth Cymru. Mae Cyngor Gwynedd a BIPBC yn aelodau o'r pwyllgor gan fod De Meirionnydd wedi'i lleoli o fewn dalgylch y rhanbarth.

Mae CCC yn bwriadu cynnal gweithdy yng Nghanolbarth Cymru, lle mae croeso i aelodau'r BPRhGC fynychu. Bydd y gweithdy'n cynnwys trafodaethau am sut i gynnal gwaith mewn ardal wledig.

Cytunodd ME i rannu dyddiad y gweithdy gydag aelodau unwaith y bydd hi wedi cael gwybod amdano.

Camau Gweithredu

- ME I rannu dyddiad y gweithdy ag aelodau.

10 Llythyr gan LIC 18.11.2019 - Adroddiad Adborth gan Weithdy Hunanasesu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Yn dilyn gweithdy Hunanasesu'r BPRh ar 02.10.2019, mae LIC wedi rhannu adroddiad adborth sy'n crynhoi trafodaethau'r diwrnod. Ers hynny, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod i drafod y camau nesaf mewn perthynas â pheilota offeryn hunanasesu ac yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan y ddau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gymryd rhan yn y Cynllun Peilot ym mis Mawrth/Ebrill 2020.

Yn dilyn trafodaeth lawn, roedd aelodau'r BPRhGC yn cytuno i beidio â chymryd rhan yn y peilot, o ganlyniad i'r diffyg capasiti a'r llwyth gwaith y mae'r BPRhGC eisoes yn gyfrifol amdano.

Camau Gweithredu

- Tynnu sylw aelodau etholedig at y penderfyniad hwn er mwyn cytuno arno gan nad yw'r cyfarfod yn gworwm.

11 Er Gwybodaeth

Rhoddodd TO wybod i aelodau'r BPRh ynghylch y dogfennau 'er gwybodaeth' ar ddiwedd y pecyn cyfarfod;

1. PHW - Pwysau'r gaeaf a
2. Iechyd a Thai – Polisi Tai ac AHW - Rhaglen Gyfalaf CGI

Daeth TO â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i DW am ei gyfraniad a'i gefnogaeth i'r BPRhGC dros y blynyddoedd, wrth i rôl DW o fewn y Groes Goch ddod i ben ddiwedd 2019, a dymuno'n dda i DW ar gyfer y dyfodol.